- **Mae dewis y dulliau cywir yn hanfodol wrth geisio cyfleu negeseuon i blant ysgol.** Siaradodd darparwyr gwasanaethau am bwysigrwydd ymgysylltu â phlant a phobl ifanc mewn perthynas â chamddefnyddio alcohol a sylweddau, ac adeiladu ymddiriedaeth a pherthynas â nhw cyn siarad yn uniongyrchol am alcohol neu gyffuriau. Dywedodd y darparwyr hyn y gallai pobl ifanc fod yn fwy parod i wrando na phobl hŷn gan nad yw eu harferion wedi ymwreiddio.
- Cytunodd rhanddeiliaid nad yw codi ofn yn gweithio, ond bod darparu gwybodaeth yn effeithiol. Y peth pwysicaf yw bod plant yn cael y wybodaeth i wneud y penderfyniadau cywir. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am leihau niwed yn hytrach na dim ond dweud wrth blant i beidio â gwneud rhywbeth. Mae hefyd angen bod yn greadigol wrth gyfleu negeseuon; yr enghraifft a roddwyd oedd defnyddio drama i drosglwyddo'r neges.
- Roedd rhanddeiliaid yn pryderu nad yw'r wybodaeth a roddir i blant a phobl ifanc bob amser yn gyson, gan y gallai'r gwahanol sefydliadau sy'n darparu gwybodaeth fod â gwahanol agendâu. Cyfeiriodd un darparwr gwasanaeth at bwysigrwydd Ymyriadau Byr o ran Alcohol (Alcohol Brief Interventions), lle

cymerwyd cyfleoedd wrth iddynt godi i ddarparu gwybodaeth gyfeirio, neu gyngor cryno.

- **Hefyd, dywedodd rhanddeiliaid fod angen i addysg a chyngor fod ar gael i blant a phobl ifanc y tu allan i leoliadau addysgol, er mwyn sicrhau bod pob person ifanc yn gallu cael gafael ar gyngor a gwybodaeth.** Disgrifiodd un darparwr gwasanaeth ei waith gyda chleient sy'n agored i niwed a oedd yn yr ysgol cyn iddo gael ei wahardd am gamddefnyddio sylweddau. Nid oedd y gwasanaeth a ddarparwyd ar gael i'r person ifanc hwnnw ar ôl iddo gael ei wahardd, gyda'r canlyniad bod y camddefnyddio wedi gwaethygu.

### **Myfyrwyr addysg bellach ac addysg uwch**

- **Dywedodd rhanddeiliaid fod amrywiad rhwng gwahanol golegau a prifysgolion o ran lefel y wybodaeth a'r cyngor a ddarperir i fyfyrwyr am gamddefnyddio alcohol a sylweddau a'r niwed ac ymddygiad cysylltiedig.** Cafwyd trafodaeth ar y ddyletswydd sydd ar brifysgolion i ofalu am fyfyrwyr sydd dros 18 oed. Roedd rhanddeiliaid yn cydnabod ei bod yn anoddach cynnwys addysg am gamddefnyddio alcohol a sylweddau mewn cwricwla coleg neu brifysgol na mewn addysg cyn TGAU.
- Bu rhanddeiliaid yn trafod yr ymateb negyddol y gall prifysgolion ac undebau myfyrwyr ei wynebu gan fyfyrwyr os byddant yn cyflwyno mentrau i leihau defnydd o alcohol neu gynyddu prisiau. Roeddent yn cytuno, er y gall prifysgolion roi mentrau ar waith yn ystod Wythnos y Glas, bod angen mentrau parhaus a dulliau amlddisgyblaethol yn ystod gweddill y flwyddyn hefyd.

### **Defnyddwyr gwasanaeth**

- Roedd rhai rhanddeiliaid yn teimlo **fod barn defnyddwyr gwasanaeth yn cael ei hystyried yn llai nag yn y gorffennol**, a bod pobl heb brofiad uniongyrchol o gamddefnyddio alcohol neu sylweddau bellach mewn swyddi perthnasol. Roeddent yn dweud bod effeithiolrwydd gwasanaethau yn dioddef o ganlyniad. Un sylw a wnaethpwyd oedd: 'Oni bai eich bod wedi bod trwy hyn, nid ydych yn gwybod sut beth ydyw'. Dywedodd y bobl ifanc sydd â phrofiad o gamddefnyddio alcohol a sylweddau y gallai fod yn rhwystredig

os oedd cynnydd yn araf ac nad oeddent yn teimlo bod unrhyw beth yn newid.

- Dywedodd rhanddeiliaid eraill fod ymgyrch bendant wedi'i chynnal i 'broffesiynoli'r' sector a bod cymwysterau bellach yn bwysicach nag yr oeddent. Roedd pawb yn cytuno bod **mewnbwn defnyddwyr gwasanaeth yn werthfawr ac yn sicr ni ddylid ei golli**. Hefyd, mae llawer o wasanaethau yn dibynnu ar ewyllys da gweithwyr a gwirfoddolwyr.
- Dywedodd y bobl ifanc sydd â phrofiad o gamddefnyddio alcohol a sylweddau eu bod wedi'i chael yn anodd cael y gefnogaeth yr oedd ei hangen arnynt, ac nad oeddent yn gwybod ble i droi i gael y gefnogaeth honno. Roedd un wedi cael cymorth gan athro, ond roedd un arall, a oedd wedi cael ei wahardd o'r ysgol am gamddefnyddio sylweddau, wedi ei chael yn anodd cael gafael ar gymorth.
- Dywedodd rhanddeiliaid fod rhai defnyddwyr gwasanaeth a oedd yn datgelu problemau camddefnyddio sylweddau wrth wneud cais am dai â chymorth yn cael cartrefi, ond eu bod wedyn yn cael eu troi allan o ganlyniad i bolisiau dim goddefgarwch. Mae gan wahanol ddarparwyr tai â chymorth gwahanol bolisiau, a allai greu dryswch i ddefnyddwyr gwasanaethau. Roedd teimlad nad oedd polisiau dim goddefgarwch yn adlewyrchu anghenion defnyddwyr cyffuriau cronig.

### **Gwasanaethau gofal sylfaenol**

- Roedd rhanddeiliaid yn **feirniadol o'r rôl y mae meddygon teulu yn ei chwarae wrth gydnabod achosion o gamddefnyddio alcohol a sylweddau a chyfeirio cleifion at wasanaethau priodol**. Dywedodd rhai bod meddygon teulu yn rhoi fawr ddim gwybodaeth am gamddefnyddio alcohol a sylweddau i gleifion, os o gwbl. Roeddent hefyd yn nodi canfyddiad bod meddygon teulu yn trin y rhai sy'n gaeth yn wahanol a bod 'camddefnyddio sylweddau yn cael y bai am bob anhwylder', er y gallai cyflyrau eraill fod yn sail i'r anhwylder. Awgrymwyd bod angen i rai meddygon teulu arbenigo mewn camddefnyddio alcohol a sylweddau, a allai leihau'r angen am wasanaethau cyffuriau ac alcohol arbenigol.

- Roedd rhanddeiliaid yn teimlo bod angen, mewn llawer o achosion, mynd i'r afael â'r rhesymau dros gamddefnyddio sylweddau neu alcohol; er enghraifft, materion iechyd meddwl. Roeddent hefyd yn dweud nad oedd digon o rannu gwybodaeth a gweithio ar y cyd rhwng meddygon teulu a gwasanaethau alcohol a sylweddau, ac y gallai hyn achosi i gyflwr unigolion ddirywio. Awgrymwyd y gallai gwasanaethau cymorth gael eu cynnig gan feddygon teulu i wella mynediad at gefnogaeth neu gyngor.
- Nododd un rhanddeiliad fod gan feddygon teulu ganllawiau i'w dilyn ar driniaeth glinigol o gamddefnyddio cyffuriau, sef 'y Llyfr Oren', a'u bod wedi cael eu hadolygu mor ddiweddar â mis Rhagfyr 2014. Mae'r cwestiwn a ydynt yn cael eu dilyn bob tro ai peidio yn fater arall.
- Hefyd, dywedodd y rhanddeiliaid fod nifer o **rwystrau rhag cael mynediad at feddygon teulu**. Mae amseroedd aros hir a'r ffaith bod yn rhaid gwneud apwyntiadau yn gynnar yn y bore yn ei gwneud yn anodd i bobl sydd â ffyrdd o fyw di-drefn, neu sy'n wynebu materion iechyd meddwl, allu gweld meddyg teulu hyd yn oed. Hefyd, mae canfyddiad bod angen i bobl fod yn 'lân' i gael mynediad at rai gwasanaethau yn atal pobl rhag ceisio eu cael.
- Amlygwyd profiadau tebyg mewn **adrannau damweiniau ac achosion brys** gan rhanddeiliaid. Roeddent yn teimlo stigma fel pobl a oedd yn gaeth, a'u bod wedi eu trin yn wahanol. Mae gan rai ardaloedd adnodd penodol; er enghraifft mae 'swyddog alcohol' yn Ysbyty'r Tywysog Siarl, ond nid yw hyn yn ddarpariaeth gyson ledled Cymru. Mae yna hefyd bwynt cyswllt unigol yn Abertawe ar gyfer cyfeirio achosion o gamddefnyddio alcohol a sylweddau.
- Mae rhai pobl sy'n gaeth yn **hunan-gyfeirio at wasanaethau dadwenwyno** oherwydd amseroedd aros hir a rhwystrau eraill i ofal sylfaenol.
- Dywedodd rhanddeiliaid hefyd y gallai oriau agor cyfyngedig fferyllfeydd achosi problemau i'r rhai sydd â phresgripsiynau methadon a oedd wedi dod o hyd i waith. Roedd rhai cleientiaid wedi gorfod rhoi'r gorau i weithio oherwydd nad oeddent fel arall yn gallu gweld y fferyllydd yn ystod oriau agor. Ar y llaw arall, canfuwyd bod rhai cleientiaid a oedd yn cael presgripsiynau methadon ddwywaith yr wythnos yn gwerthu eu methadon.

## Gwasanaethau arbenigol

- Defnyddiwyd y term '**loteri cod post**' nifer o weithiau. Pwysleisiodd rhanddeiliaid fod y ddarpariaeth o ran gwasanaethau ledled Cymru yn anghyson. Nodwyd bod diffyg gwasanaethau yng Nghymru Wledig ('Dyfed' a Phowys). Dywedodd rhai rhanddeiliaid fod defnyddwyr gwasanaeth weithiau'n gorfod teithio pellteroedd sylweddol i gael mynediad at wasanaethau, a bod angen ystyried y costau teithio sy'n gysylltiedig ag ardaloedd gwledig mewn cyllidebau.
- Roedd rhai rhanddeiliaid yn teimlo bod angen **gwasanaethau penodol i fenywod**. Gall camddefnyddio alcohol a sylweddau fod yn gysylltiedig â cham-drin domestig, ac mae angen diogelu rhai menywod sy'n agored i niwed rhag 'dynion rheibus'.
- Cafwyd galwad am **amrywiaeth o wasanaethau i gefnogi'r uned deuluol**. Mae angen gwasanaethau ar ddefnyddwyr â phlant sy'n caniatáu i'w plant aros gyda nhw. Gwnaeth rhanddeiliaid grybwyll achosion lle'r oedd y gwasanaethau cymdeithasol yn mynd â phlant oddi wrth eu rhieni oherwydd diffyg gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y teulu.
- Roedd rhanddeiliaid yn cytuno bod **angen mwy o weithio ar y cyd** rhwng gwahanol wasanaethau. Byddai hyn yn caniatáu ar gyfer 'cynlluniau gofal ar y cyd' i gefnogi pobl ag anghenion cymhleth (rhoddwyd camddefnyddio alcohol a sylweddau yn ogystal â phroblemau iechyd meddwl fel enghraifft). Nodwyd Rhondda, lle mae gwasanaethau statudol ac anstatudol wedi'u cyd-leoli, fel enghraifft dda o weithio ar y cyd. Dywedodd rhai rhanddeiliaid bod y dull consortiwm diweddar o ran tendro a chomisiynu yn arwain at hepgor rhai gwasanaethau, a'i fod yn creu bylchau mewn darparu gwasanaethau.
- **Nid oes un ateb yn addas i bawb; mae angen teilwra gwasanaethau**. Er enghraifft, efallai na fydd dadwenwyno yn y gymuned yn llwyddo i rai am fod yr un dylanwadau yn dal i fod yn bresennol yn y gymuned lle y mae'n nhw'n byw, felly gallai adleoli fod yn opsiwn. Mae dadwenwyno yn y cartref ond yn opsiwn ar gyfer y rhai sydd â chartref sefydlog.

- Dywedodd rhanddeiliaid y gallai fod amseroedd aros sylweddol ar gyfer gwasanaethau arbenigol fel cwnsela. Roeddent yn dweud bod rhestrau cwnselwyr yn aml wedi'u llenwi gan gleientiaid a oedd bellach yn sefydlog, gan gynyddu amseroedd aros ar gyfer cleientiaid newydd y mae angen y gwasanaeth arnynt. Codwyd amseroedd aros ar gyfer gwasanaethau dadwenwyno hefyd, gyda chleientiaid mewn rhai ardaloedd yn gorfod aros hyd at wyth wythnos ar gyfer asesiad, a hyd yn oed yn hirach i gael eu derbyn gan wasanaeth ailsefydlu. Gallai'r amser aros hir ar gyfer gwasanaethau arwain at gyflwr pobl yn dirywio, neu olygu eu bod yn argyhoeddi eu hunain nad oedd bellach eisiau neu angen y cymorth arnynt erbyn i'r gwasanaeth fod ar gael.
- Dywedodd darparwyr gwasanaeth eu bod yn wynebu rhwystrau o ran cael mynediad at wasanaethau dadwenwyno ac adsefydlu ar gyfer eu cleientiaid, a bod y ddarpariaeth yng Nghymru yn annigonol. Roedd pryderon hefyd ynghylch lefel y gofal a'r gefnogaeth a ddarperir yn sgil gwasanaeth dadwenwyno i helpu i atal unigolion rhag llithro'n ôl. Roedd un person ifanc a oedd wedi cael profiad o wasanaeth dadwenwyno yn dweud mai ychydig iawn o ofal yr oedd wedi'i gael ar ôl y driniaeth. Cytunodd rhanddeiliaid fod angen ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth cyn ac ar ôl triniaeth.
- Dywedodd rhai rhanddeiliaid fod nifer y gwelyau dadwenwyno yng Nghymru yn gostwng. Fodd bynnag, dywedodd eraill nad oedd hyn yn wir.
- Dywedodd darparwyr gwasanaeth fod angen gwella mynediad at Bresgripsiynau Mynediad Cyflym i helpu i sefydlogi pobl a galluogi gwasanaethau i weithio gyda nhw i leihau eu dos. Dywedasant hefyd fod angen rhoi mwy o ystyriaeth i achosion pan fo unigolion yn defnyddio mwy nag un sylwedd.
- Dywedodd rhanddeiliaid y gallai darparwyr gwasanaeth unigol fod â gwahanol ddulliau. Rhoddwyd enghraifft o wasanaeth a ddarperir gan ddau weithiwr cymorth a oedd â baich achosion anghytwys gan fod y plant a'r bobl ifanc yn gofyn i weld un o'r gweithwyr cymorth.

- Dywedodd rhanddeiliaid y gallai'r cyfnod pontio rhwng gwasanaethau i blant a phobl ifanc i wasanaethau ar gyfer oedolion fod yn anodd. Roedd rhai defnyddwyr gwasanaeth yn rhoi'r gorau i ymgysylltu â gwasanaethau, tra bod eraill yn canfod nad oedd y gwasanaethau yr oeddent wedi bod yn ymgysylltu â nhw ar gael iddynt. Dywedodd darparwyr gwasanaethau i blant a phobl ifanc eu bod yn cael galwadau gan gyn-gleientiaid, sydd bellach dros 18 oed, yn gofyn am gyngor a chefnogaeth. Cafodd hyn ei adlewyrchu hefyd ym mhrofiadau'r defnyddwyr gwasanaeth ifanc a gymerodd ran.
- Roedd rhanddeiliaid yn cydnabod bod angen i wasanaethau ddatblygu ac addasu i gwrdd ag anghenion esblygol eu cymunedau, ac y gallai rhai darparwyr gwasanaeth fod yn amharod i newid eu dulliau neu eu gwasanaethau.

## Alcohol

- Roedd rhanddeiliaid yn teimlo bod yfed alcohol yn dderbyniol yn gymdeithasol yng Nghymru, a bod alcohol ar gael yn eang. Roeddent yn dweud bod camddefnyddio alcohol yn fwy cyffredin ymysg pobl ifanc na chamddefnyddio sylweddau. Yn ôl y rhanddeiliaid, er bod plant yn dechrau yfed yn gynharach, mae astudiaethau wedi dangos bod y genhedlaeth hon o bobl ifanc yn yfed llai na chenedlaethau blaenorol, efallai oherwydd cynnydd mewn ymwybyddiaeth iechyd.
- Roedd rhai rhanddeiliaid yn gadarn **yn erbyn cyflwyno isafswm pris ar gyfer uned alcohol**. Roeddent yn dweud y gallai gael canlyniadau anfwriadol, fel gwthio rhai pobl i gymryd cyffuriau eraill (ecstasi, er enghraifft), neu wneud i alcohol ymddangos yn fwy dymunol a deniadol. Hefyd, roeddent yn teimlo y byddai hyn yn effeithio'n anghymesur ar bobl dlotach sy'n yfed yn gymedrol. Roedd barn ymysg rhanddeiliaid eraill yn amrywio, gyda rhai yn dweud y **gallai** fod yn effeithiol.
- Roedd rhanddeiliaid yn teimlo y **dylai fod mwy o gyfyngiadau ar werthu alcohol**, efallai'n debycach i'r ffordd y mae sigarêts yn cael eu gwerthu. Gwnaethant grybwyll pa mor anodd oedd hi i alcoholigion sy'n gwella weld alcohol yn cael ei leoli a'i hyrwyddo ledled archfarchnadoedd a pha mor



hawdd oedd hi i brynu alcohol mewn siopau cornel. Roeddent hefyd yn teimlo na ddylid hysbysebu alcohol ar y teledu.

- Dywedodd rhai rhanddeiliaid **fod yfed alcohol yn rhan mor annatod o'n diwylliant** ei bod yn anodd weithiau i berswadio pobl ifanc nad yw yfed alcohol (neu gymryd sylweddau eraill) yn hanfodol i gael hwyl. Roeddent yn dweud bod angen hyrwyddo negeseuon i bobl ifanc y gall 'pethau sobr' fod yn hwyl hefyd.
- Nid yw'r iaith a ddefnyddir mewn perthynas ag alcohol bob amser yn **ddefnyddiol**. Er enghraifft, nid yw'r cyhoedd yn deall yn union beth a olygir gan 'uned o alcohol'.
- Nododd rhanddeiliaid fenter lwyddiannus ymysg myfyrwyr prifysgol, sef tynnu sylw at y **caloriâu** sydd mewn diodydd alcoholig, oherwydd gall pobl ifanc fod yn pryderu'n fwy am fagu pwysau nag achosi difrod hirdymor i'w hiechyd. Cafwyd awgrym y dylid cynnwys **gwybodaeth am faeth** ar labeli diodydd alcoholig.
- Nododd rhanddeiliaid bwysigrwydd dulliau amlddisgyblaethol i fynd i'r afael â materion cysylltiedig ag alcohol mewn ardaloedd penodol, er enghraifft y Grŵp Economi Liw Nos yn Aberystwyth, sy'n cynnwys yr heddlu, awdurdodau lleol, undebau myfyrwyr a gwasanaethau ambiwlans.

### Sylwadau eraill

- Roedd yr holl rhanddeiliaid yn pryderu a fyddai'r **cyllid ar gyfer gwasanaethau** yn parhau. Mae llawer o'r arian y maent yn ei gael, boed hynny gan Lywodraeth Cymru neu elusennau fel Comic Relief neu'r Gronfa Loteri Fawr, fel arfer yn cael ei roi yn y tymor byr. O ganlyniad, maent yn aml yn 'ddall o ran cyllidebu'. Dywedodd un rhanddeiliad fod cyllid y Rhaglen Cefnogi Pobl yn hanfodol i'r gwasanaethau y mae'n eu darparu.
- Mae angen targedu **grwpiau anodd eu cyrraedd**, fel y gymuned Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol, y gymuned Sipsiwn a Theithwyr a ffoaduriaid/ceiswyr lloches.

- Mae angen cynllun ar ddefnyddwyr **methadon** i orffen eu triniaeth yn llwyddiannus. Maent mewn perygl o gael eu hanghofio, ac o fod yn gaeth i fethadon am flynyddoedd maith.
- Os caiff pobl eu hanfon i'r carchar, dywedodd rhanddeiliaid y gallai pobl â phroblemau camddefnyddio alcohol ddechrau defnyddio opiadau yno.
- Cyfeiriodd rhai rhanddeiliaid at or-bresgripsiynu cyffuriau fel Valium, a oedd wedyn yn cael eu gwerthu a'u camddefnyddio. Awgrymodd un cyfranogwr y dylai cleifion a oedd yn cael Valium ar bresgripsiwn ar sail hirdymor gael profion cyffuriau cyfnodol i nodi a ydynt yn defnyddio'r dos a roddwyd iddynt.
- Cytunodd rhanddeiliaid y gallai diflastod fod yn ffactor allweddol o ran camddefnyddio alcohol a sylweddau, a bod angen gweithio ar y cyd â gwasanaethau hamdden i helpu pobl i gael mynediad at gyfleusterau chwaraeon neu gyfleusterau hamdden eraill. Roeddent yn cytuno bod angen i bobl newid eu hamgylcheddau wrth iddynt wella ar ôl camddefnyddio alcohol neu sylweddau, a bod tai yn elfen bwysig yn hynny o beth.
- Nododd rhai rhanddeiliaid yr angen i fynd i'r afael â'r niwed sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio alcohol a sylweddau, fel clefydau a drosglwyddir yn rhywiol neu glefydau a drosglwyddir drwy rannu nodwyddau. Awgrymodd un cyfranogwr y gallai sesiynau addysg iechyd rhywiol gorfodol fod yn gysylltiedig â phresgripsiynau methadon.

# Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Ymchwiliad i gamddefnyddio alcohol a sylweddau

## Crynodeb o'r arolwg i gamddefnyddio alcohol a sylweddau

### Cefndir

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'r arolwg ar yr Ymchwiliad i gamddefnyddio alcohol a sylweddau a gynhaliwyd gan y tîm Allgymorth.

Roedd yr holiadur ar agor i ymgynghoriad ac ymatebion rhwng 17 Tachwedd a 09 Ionawr 2015.

### Methodoleg

Fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i gamddefnyddio alcohol a sylweddau, cynhaliodd y Tîm Allgymorth arolwg, a hynny ar-lein ac ar bapur.

Cynhyrchwyd dau arolwg at ddibenion yr ymchwiliad. Roedd un arolwg yn targedu'r cyhoedd yn gyffredinol. Gofynnwyd amrywiaeth o gwestiynau am gamddefnyddio alcohol a sylweddau ac effaith hynny ar bobl leol, eu hagweddau tuag at gamddefnyddio alcohol a sylweddau, ac a oes gwasanaethau priodol ar gael yn lleol i helpu pobl. Cewch hyd i ganlyniadau'r arolwg yma ar dudalen 2 – 30.

Cynhyrchwyd yr ail arolwg er mwyn targedu gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gyda chleientiaid sy'n camddefnyddio alcohol a sylweddau. Yn yr achos hwn, gofynnwyd amrywiaeth o gwestiynau'n ymwneud â ffactorau sy'n effeithio ar y cleientiaid hynny sy'n ddibynol ar alcohol neu sylweddau a'r cymorth sydd ar gael i'w cleientiaid a gweithwyr proffesiynol wrth atgyfeirio achosion at wasanaethau. Cewch hyd i ganlyniadau'r arolwg yma ar dudalennau 31 – 40.

### Codi Ymwybyddiaeth

Er mwyn hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r arolwg a denu cyfranogwyr, cysylltodd y Tîm Allgymorth ag ystod eang o sefydliadau. Roedd y rhai y cysylltwyd â hwy wedi gallu codi ymwybyddiaeth mewn amryw o ffyrdd, gan gynnwys rhoi erthyglau ar wefannau; tynnu sylw ar gyfryngau cymdeithasol gan gynnwys Facebook a Twitter; ac anfon negeseuon e-bost yn uniongyrchol at gyfranogwyr.

Bu staff y Cynulliad hefyd yn hyrwyddo'r arolwg ymysg grwpiau perthnasol a oedd yn ymweld â'r Senedd, ac ar ymweliadau addysg.

## Dadansoddiad arolwg Y cyhoedd yn gyffredinol


### Ystadegau Allweddol

**607** Cyfanswm nifer yr ymatebion a gafwyd i'r arolwg

### Crynodeb Daearyddol o'r Ymatebion

Nifer yr ymatebion i'r arolwg a gafwyd gan y cyhoedd wedi'i dadansoddi yn ôl awdurdod lleol.

Blaenau Gwent: 25  
Pen-y-bont ar Ogwr: 27  
Caerffili: 71  
Caerdydd: 40  
Sir Gaerfyrddin: 25  
Ceredigion: 53  
Conwy: 15  
Sir Ddinbych: 13  
Sir y Fflint: 13  
Gwynedd: 14  
Ynys Môn: 6  
Merthyr Tudful: 12  
Sir Fynwy: 6  
Castell-nedd Port Talbot: 6  
Casnewydd: 13  
Sir Benfro: 49  
Powys: 23  
Rhondda Cynon Taf: 56  
Abertawe: 12  
Torfaen: 7  
Bro Morgannwg: 12  
Wrecsam: 31




## Crynodeb o'r Ymatebion

Cwestiwn un - Mae "goryfed" yn golygu yfed rheolaidd uwchlaw'r canllawiau dyddiol a argymhellir. Mae'r canllawiau hyn yn wahanol i ddynion a merched ac yn seiliedig ar yr unedau o alcohol rydych yn ei yfed: mae un uned o alcohol yn cyfateb i yfed 10ml o alcohol pur. Yn ôl y canllawiau hyn, ni ddylai dynion yfed yn rheolaidd mwy na 3 - 4 uned o alcohol y dydd (sy'n cyfateb â gwydraid mawr 250ml o win), ac ni ddylai merched yfed yn rheolaidd mwy na 2 - 3 uned o alcohol y dydd (sy'n cyfateb i beint o seidr).

Wyt ti'n credu fod problem yn dy ardal di yn ymwneud â phobl ifanc yn yfed gormod?

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 605


- Ydw: **64.95% (393)**
- Nac ydw: **20.16% (122)**
- Nid wyf yn siŵr: **14.87% (90)**



## Cwestiwn dau - Yn dy farn di, faint o bobl dy oed di sydd yn yfed gormod?

Cyfanswm nifer yr ymatebion:: 601

- Pob un: **5.15% (31)**
- Y rhan fwyaf: **38.93% (234)**
- Eu hanner: **25.79% (155)**
- Dim ond ychydig: **26.12% (157)**
- Dim un: **3.99% (24)**



## Dadansoddiad demograffig


Mae rhan yma o'r holiadur yn rhoi dadansoddiad byr i atebion cwestiwn dau, o ran oedran ymatebwyr.

Cwestiwn dau - Yn dy farn di, faint o bobl dy oed di sydd yn yfed gormod?

16 oed neu'n iau

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 122


- Pob un: **5.73% (7)**
- Eu hanner: **17.21% (21)**
- Dim un: **1.63% (2)**
- Y rhan fwyaf: **53.27% (65)**
- Dim ond ychydig: **22.13% (27)**



## 17 – 24

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 188


- Pob un: **6.38% (12)**
- Eu hanner: **20.21% (38)**
- Dim un: **1.06% (2)**
- Y rhan fwyaf: **51.59% (97)**
- Dim ond ychydig: **20.74% (39)**



## 25 – 34

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 66

- Pob un: **3.03% (2)**
- Eu hanner: **34.84% (23)**
- Dim un: **6.06% (4)**
- Y rhan fwyaf: **27.27% (18)**
- Dim ond ychydig: **28.78% (19)**






35 – 44

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 61


- Pob un: **1.63% (1)**
- Eu hanner: **39.34% (24)**
- Dim un: **1.63% (1)**
- Y rhan fwyaf: **27.86% (17)**
- Dim ond ychydig: **29.50% (18)**



45 – 59

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 91


- Pob un: **2.19% (2)**
- Eu hanner: **39.56% (36)**
- Dim un: **8.79% (8)**
- Y rhan fwyaf: **16.48% (15)**
- Dim ond ychydig: **32.96% (30)**



## 60 – 64

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 17


- Pob un: **5.88% (1)**
- Eu hanner: **17.64% (3)**
- Dim un: **17.64% (3)**
- Y rhan fwyaf: **11.76% (2)**
- Dim ond ychydig: **47.05% (8)**



## 65 oed neu drosodd

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 9


- Pob un: **0.00% (0)**
- Eu hanner: **22.22% (2)**
- Dim un: **11.11% (1)**
- Y rhan fwyaf: **22.22% (2)**
- Dim ond ychydig: **44.44% (4)**



## Cwestiwn tri - Pam maen nhw'n yfed gormod, yn dy farn di?

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 549

Tudalen y pecyn 59




## Sylwadau

- Eglurodd 79 o ymatebwyr fod llawer o bobl yn yfed gormod am ei fod yn bleserus ac er mwyn mwynhau;
- Dywedodd 77 o unigolion fod yfed gormod yn ddihangdod i lawer o bobl o wirioneddau eu bywydau. Byddai hyn yn cynnwys eu hamgylchiadau cymdeithasol, pwysau gwaith neu salwch (corfforol a meddyliol);
- Roedd 71 o bobl o'r farn bod diflastod yn sbardun i yfed gormod ymhlith eu cyfoedion;
- Esboniodd 64 o ymatebwyr y gall pwysau cymdeithasol ddylanwadu ar yfed gormod neu hyrwyddo hynny. Y teimlad yw bod alcohol yn rhan annatod o gymdeithasu mewn diwylliant yng Nghymru/Prydain a gall y pwysau cymdeithasol hwn annog llawer i yfed. Ymhelaethodd llawer o ymatebwyr ar sut y mae'r mwyafrif o'u hymrwymiaadau cymdeithasol yn cynnwys "mynd i'r dafarn";
- Dywedodd 54 o unigolion fod yfed gormod yn digwydd er mwyn cymdeithasu, a bod yn gyfforddus wrth gymdeithasu;
- Roedd 41 o bobl o'r farn bod llawer sy'n yfed gormod yn gwneud hynny er mwyn ymddangos yn ffasiynol neu "cŵl". Soniodd llawer am hudoliaeth alcohol a sylweddau yn y cyfryngau, yn ogystal ag operâu sebon ar y teledu lle mae'r dafarn leol yn ganolbwynt y cymunedau dychmygol hyn;
- Fel arall, esboniodd 39 o ymatebwyr fod pwysau gan gyfoedion yn arwain at yfed gormod, ac y gall yr awydd i fod yn un o'r criw fod yn ormod i lawer, yn enwedig pan yn dechrau yn y brifysgol/coleg;
- Dywedodd 34 o unigolion ei bod y gymdeithasol dderbyniol i yfed gormod oherwydd y "diwylliant goryfed mewn pyliau". Mae diodydd rhad ac ymgyrchoedd hyrwyddo gan archfarchnadoedd, tafarnau a chlybiau yn annog pobl i yfed;
- Roedd 26 o bobl yn teimlo mai bod yn gaeth i alcohol, a'r arfer o yfed sy'n cymell unigolion i yfed gormod;
- Roedd 20 o ymatebwyr o'r farn bod alcohol yn rhad iawn a'i bod yn llawer haws cael gafael arno nag erioed o'r blaen, yn arbennig o ran trwyddedu 24 awr a chynigion arbennig mewn archfarchnadoedd (gydag ambell un o'r rhain hefyd ar agor 24 awr y dydd);
- Dywedodd 16 o bobl fod llawer o bobl yn yfed er mwyn ymlacio;
- Teimlai 10 o unigolion mai diffyg gwybodaeth ac addysg ynghylch effeithiau niweidiol yfed gormod o alcohol sy'n golygu fod pobl yn dewis yfed neu'n eu sbarduno i yfed;
- Eglurodd wyth o ymatebwyr sut y gall diweithdra, diswyddo neu ddiffyg cyfleoedd gwaith annog pobl i yfed gormod;
- Roedd saith o bobl o'r farn y gall yfed gormod ddigwydd a'i guddio'n rhwydd yn y cartref, yn hytrach na thafarn neu glwb;
- Dywedodd tri unigolyn fod llawer o bobl yn yfed gormod am nad ydynt yn ymwybodol o'u terfynau, ac nad ydynt yn deall y canllawiau a argymhellir gan y Llywodraeth.

## Cwestiwn pedwar – Beth fyddai'r prif reswm i ti beidio ag yfed gormod?


Cyfanswm nifer yr ymatebion: 569

- Rhy ddrud: **19.33% (110)**
- Byddwn yn ofni'r effeithiau (er engrhaifft, peryglon iechyd): **28.47% (162)**
- Byddwn i ddim eisiau mynd yn gaeth: **6.67% (38)**
- Rwy'n credo fod goryfed yn anghywir: **6.32% (36)**
- Mae'n erbyn y gyfraith (os wyt o dan 18 mlwydd oed): **2.63% (15)**
- Fyddwn i ddim eisiau yfed gormod: **24.07% (137)**
- Arall: **14.41% (82)**



## Cwestiwn pedwar - Sylwadau

Cyfanswm nifer yr sylwadau: 75




- Dywedodd 16 o ymatebwyr mai pen mawr a salwch yw'r prif reswm nad ydynt yn yfed gormod;
- Dywedodd 10 o bobl nad oeddent yn yfed alcohol o gwbl;
- Roedd saith o bobl o'r farn na fyddent yn yfed gormod gan eu bod yn gwerthfawrogi eu hiechyd corfforol a meddyliol uwchlaw popeth arall;
- Dywedodd saith o ymatebwyr ei bod yn erbyn eu crefydd i yfed alcohol;
- Dywedodd saith o bobl eu bod yn dilyn rhaglen adsefydlu neu raglen o adferiad ar gyfer camddefnyddio alcohol, ac na fyddent yn yfed yn ormodol;
- Roedd chwech o unigolion o'r farn bod profiad o gamddefnyddio alcohol yn y gorffennol yn eu teuluoedd / cylchoedd cymdeithasol wedi rhwystro unrhyw awydd i gamddefnyddio alcohol;
- Dywedodd pump ymatebydd y byddai eu cyfrifoldebau (ymrwymiadau gofal plant neu'r gwaith er enghraifft) yn eu darbwylllo i beidio ag yfed gormod;
- Dywedodd pump o bobl y byddent yn pryderu am yr effaith ehangach y byddai yfed gormod yn ei chael ar deulu a ffrindiau;
- Dywedodd pump o unigolion eu bod yn casáu yr effaith yr oedd yfed gormod o alcohol yn ei chael ar eu hwyliau a'u hymddygiad;
- Roedd tri ymatebydd yn dadlau ei bod yn well ganddynt gamddefnyddio sylweddau yn hytrach nag alcohol;
- Roedd tri o bobl yn casáu'r ffordd wael o fyw sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio alcohol ac yfed gormod o alcohol;
- Eglurodd un unigolyn na fyddai'n yfed gormod oherwydd y perygl o gael ei dal yn gyrru gyda gormod o alcohol yn ei waed y diwrnod wedyn.

## Cwestiwn pump - Beth allai annog pobl i beidio ag yfed gormod?

Cyfanswm nifer yr sylwadau: 440

Tudalen y pecyn 63



## Sylwadau

- Dywedodd 100 o ymatebwyr y byddai codi isafswm pris alcohol yn yn annog pobl i beidio ag yfed gormod;
- Roedd 96 o unigolion yn teimlo y dylid rhoi mwy o bwyslais ar y risgiau iechyd sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio alcohol;
- Roedd 69 o bobl o'r farn y dylid annog bywydau cymdeithasol amgen ymhlith y cyhoedd nad yw'n gysylltiedig ag alcohol;
- Dywedodd 31 o ymatebwyr y dylid diwygio'r deddfau trwyddedu;
- Teimlai 29 o unigolion y dylid gwella addysg ynghylch y niwed a gaiff ei achosi drwy gamddefnyddio alcohol;
- Roedd 27 o bobl o'r farn y byddai gwella safonau byw (tlodi, cyfleoedd cyflogaeth ac ati.) yn annog pobl i beidio ag yfed gormod;
- Roedd 26 o unigolion yn teimlo y dylai fod terfyn neu waharddiad ar hysbysebion alcohol a "chynigion arbennig rhad";
- Roedd 20 o bobl yn dadlau dros newid diwylliant o "oryfed mewn pyliau";
- Dywedodd 17 o ymatebwyr y dylid cael gwell gwybodaeth iechyd y cyhoedd ynghylch niweidiau camddefnyddio alcohol;
- Roedd 11 o unigolion yn teimlo y dylid rhoi mwy o gefnogaeth i'r rhai sy'n camddefnyddio alcohol, neu sydd mewn perygl o fod yn ddibynnol ar alcohol;
- Roedd 11 o bobl o'r farn y dylid cyhoeddi'r goblygiadau ar y gwasanaethau iechyd a'r GIG, o ran costau ac adnoddau, mewn cysylltiad â'r rhai sydd ag angen triniaeth o ganlyniad i gamddefnyddio alcohol;
- Dywedodd dau ymatebydd y dylai fod gwell dewisiadau dialcohol i'w hyfed mewn tafarnau a chlybiau;
- Roedd un unigolyn yn teimlo y gellid gwneud mwy i ddatblygu diwylliant caffi mewn cymdeithas.




Cwestiwn chwech - Mae “camddefnyddio sylweddau” yn golygu defnydd gormodol ac/neu’r ddibyniaeth ar sylweddau seicoweithredol - neu gyffuriau. Mae hyn yn cynnwys sylweddau fel canabis, cocên, heroin neu gyffuriau presgripsiwn, yn ogystal â sylweddau seicoweithredol newydd - neu gyffuriau penfeddwol cyfreithlon (“legal highs”).

Wyt ti'n credu fod problem yn dy ardal di yn ymwneud â phobl ifanc yn cymryd cyffuriau?

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 571


- Ydw: **66.37% (379)**
- Nac ydw: **14.35% (82)**
- Nid wyf yn siŵr: **19.26% (110)**



## Cwestiwn saith - Yn dy farn di, faint o bobl dy oed di sydd yn cymryd cyffuriau?

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 571

- Pob un: **2.27% (13)**
- Y rhan fwyaf: **17.51% (100)**
- Eu hanner: **24.86% (142)**
- Dim ond ychydig: **43.78% (250)**
- Dim un: **11.55% (66)**



## Dadansoddiad demograffig


Mae rhan yma o'r holiadur yn rhoi dadansoddiad byr i atebion cwestiwn saith, o ran oedran ymatebwyr.

Cwestiwn saith - Yn dy farn di, faint o bobl dy oed di sydd yn cymryd cyffuriau?

### 16 oed neu'n iau

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 122


- Pob un: **0.00% (0)**
- Y rhan fwyaf: **16.39% (20)**
- Eu hanner: **27.04% (33)**
- Dim ond ychydig: **50% (61)**
- Dim un: **6.55% (8)**



## 17 – 24

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 188


- Pob un: **3.72% (7)**
- Eu hanner: **31.91% (60)**
- Dim un: **3.72% (7)**
- Y rhan fwyaf: **24.46% (46)**
- Dim ond ychydig: **36.17% (68)**



## 25 - 34

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 65


- Pob un: **3.07% (2)**
- Eu hanner: **21.53% (14)**
- Dim un: **16.92% (11)**
- Y rhan fwyaf: **18.46% (12)**
- Dim ond ychydig: **40.00% (26)**



### 35 - 44

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 60


- Pob un: **1.66% (1)**
- Eu hanner: **23.33% (14)**
- Dim un: **15% (9)**
- Y rhan fwyaf: **16.66% (10)**
- Dim ond ychydig: **43.33% (26)**



### 45 – 59

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 89


- Pob un: **1.12% (1)**
- Eu hanner: **17.97% (15)**
- Dim un: **24.71% (22)**
- Y rhan fwyaf: **5.16% (5)**
- Dim ond ychydig: **51.68% (46)**



## 60 – 64

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 16


- Pob un: **0.00% (0)**
- Eu hanner: **12.5% (2)**
- Dim un: **31.25% (5)**
- Y rhan fwyaf: **0.00%**
- Dim ond ychydig: **56.25% (9)**



## 65 oed neu drosodd

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 9


- Pob un: **0.00% (0)**
- Eu hanner: **11.11% (1)**
- Dim un: **33.33% (3)**
- Y rhan fwyaf: **0.00%**
- Dim ond ychydig: **55.55% (5)**



## Cwesitwn wyth - Pam maen nhw'n cymryd cyffuriau, yn dy farn di?

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 464

Tudalen y pecyn 71



## Sylwadau


- Dywedodd 93 o ymatebwyr fod llawer o bobl yn cymryd cyffuriau i gael pleser a'r profiad o deimlo'n braf;
- Roedd 81 o unigolion o'r farn mai pwysau gan gyfoedion sy'n dylanwadu ar gymryd cyffuriau;
- Roedd 71 o bobl yn teimlo mai dihangdod (o wirioneddau bywyd, problemau personol ac ati.) yw'r prif reswm dros gamddefnyddio sylweddau;
- Dywedodd 55 o ymatebwyr fod llawer o bobl, o dan bwysau cymdeithasol, yn camddefnyddio sylweddau. Fel gydag yfed alcohol, mae'r cyfryngau yn rhoi gwedd hudolus ar gymryd cyffuriau a, bellach, mae rhai pobl yn ei ystyried yn "norm cymdeithasol";
- Roedd 48 o unigolion yn dadlau bod llawer o bobl yn cymryd cyffuriau i ymddangos yn ffasiynol neu 'cŵl'. Fel y soniwyd uchod, mae llawer o unigolion yn camddefnyddio sylweddau yn eu cylchoedd cymdeithasol er mwyn "ffitio i mewn";
- Roedd 21 o bobl yn teimlo bod dibyniaeth ar sylweddau ynddo'i hun yn gwneud i bobl gymryd cyffuriau, a pharhau i'w cymryd;
- Dywedodd 18 o ymatebwyr fod cyffuriau ar gael yn hawdd iawn yn eu cymunedau, sydd, efallai, yn esbonio pam mae rhai unigolion yn eu cymryd;
- Roedd 15 o unigolion yn dadlu bod diflastod yn dylanwadu ar benderfyniad pobl i gymryd cyffuriau;
- Roedd 12 o bobl yn teimlo bod safon byw gwael unigolyn (er enghraifft, diweithdra, tlodi ac ati.) yn gallu annog rhai i gymryd sylweddau;
- Nododd 11 o ymatebwyr mai chwilfrydedd yw'r prif reswm dros gymryd cyffuriau;
- Roedd 11 o unigolion o'r farn bod cyffuriau yn rhatach nag alcohol mewn rhai ardaloedd;
- Roedd 10 o bobl yn teimlo bod rhai unigolion yn cymryd cyffuriau at ddibenion hamdden;
- Dywedodd saith ymatebydd bod llawer o bobl yn cymryd cyffuriau er mwyn cymdeithasu;
- Roedd chwech unigolyn o'r farn fod llawer o bobl yn cymryd cyffuriau er mwyn hunan-feddyginiaethu;
- Roedd tri o bobl yn teimlo bod camddefnyddio sylweddau yn fwy diogel nag alcohol;
- Dywedodd dau ymatebydd bod diffyg addysg am beryglon camddefnyddio sylweddau yn cyfrannu at ddefnyddio cyffuriau.




## Cwestiwn naw - Beth fyddai'r prif reswm i ti wrthod cynnig i gymryd cyffuriau?

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 564

- Mae cyffuriau rhy ddrud: **7.26% (41)**
- Byddwn yn ofni'r effeithiau (er enghraifft, peryglon iechyd): **19.50% (110)**
- Dydw i ddim yn gwybod digon am gyffuriau: **3.54% (20)**
- Byddwn i ddim eisiau mynd yn gaeth: **7.80% (44)**
- Rwy'n credo fod cymryd cyffuriau yn anghywir: **13.65% (77)**
- Mae'n erbyn y gyfraith: **4.07% (23)**
- Fyddwn i ddim eisiau eu cymryd nhw: **34.21% (193)**
- Arall: **9.92% (56)**



## Sylwadau




- Byddai saith ymatebydd yn gwrthod cyffuriau a gynigiwyd iddynt gan eu bod yn dilyn rhaglen adsefydlu am gamddefnyddio sylweddau neu'n dilyn rhaglen adferiad;
- Roedd saith unigolyn wedi mynegi pryderon ynghylch camddefnyddio sylweddau a'r effaith ehangach a byddai'n ei chael ar deulu a'u ffrindiau;
- Ni fyddai chwech o bobl yn gwrthod cyffuriau a gynigiwyd iddynt;
- Byddai chwe ymatebydd yn cwestiynu purdeb a chynnwys sylwedd a gynigiwyd iddynt;
- Byddai pump o unigolion yn gwrthod cynnig oherwydd y câi hynny effaith uniongyrchol ar eu gallu i weithio;
- Byddai pedwar ymatebydd yn gwrthod cynnig / derbyn cynnig yn dibynnu ar pa sylwedd oedd;
- Byddai tri o bobl yn gwrthod cynnig am ei fod yn erbyn eu crefydd;
- Byddai dau unigolyn yn ofni "colli rheolaeth";
- Byddai dau ymatebydd yn gwrthod cynnig ar ôl cael profiadol drwg blaenorol gyda sylweddau;
- Mae dau o bobl yn anghytuno â'r ffordd wael o fyw sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau;
- Byddai un unigolyn yn pryderu am y stigma sy'n gysylltiedig â chymryd sylweddau;
- Dywedodd un unigolyn mai dim ond dros dro y mae'r ddihangdod o gymryd sylweddau yn para, ac mai dyma'r prif reswm pam y byddai'n gwrthod;
- Byddai un ymatebydd yn gwrthod rhag ofn y byddai'n cymryd gorddos;
- Byddai un person yn gwrthod rhag ofn y byddai'n dod yn gaeth.

## Cwestiwn 10 - Beth allai annog pobl i beidio cymryd cyffuriau?

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 400

Tudalen y pecyn 75




## Sylwadau

- Roedd 76 yn teimlo y dilyd cynyddu ymwybyddiaeth o'r risgiau i iechyd sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau;
- Roedd 76 o unigolion o'r farn y byddai gweld sgil-ffeithiau a chanlyniadau deifiol camddefnyddio sylweddau yn atal pobl rhag cymryd cyffuriau;
- Dywedodd 53 o bobl y dylai fod mwy o addysg mewn ysgolion a cholegau. Dylai'r addysg hon fod yn onest a diduedd, ac yn adlewyrchiad cywir o ganlyniadau dibyniaeth ar sylweddau;
- Roedd 47 o'r ymatebwyr yn teimlo y dylid diwygio'r system gyfreithiol. Mae hyn yn cynnwys diwygio canllawiau dedfrydu o ran cyfnodau o dan glo am gymryd sylweddau (yn ogystal â phrynu a gwerthu sylweddau); adsefydlu mewn carchardai ar gyfer pobl sy'n dibynnu ar sylweddau a monitro defnyddio sylweddau tra ar brawf;
- Roedd 25 o unigolion o'r farn y dylid rhoi mwy o gymorth a chynghor i'r rhai sy'n dibynnu ar sylweddau / sydd mewn perygl o ddod yn ddibynnol ar sylweddau;
- Dywedodd 23 o bobl y gellid gwneud mwy i annog ffordd gymdeithasol wahanol o fyw nad oedd yn gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau. Rhai o'r enghreifftiau oedd mwy o glybiau ieuencid, grwpiau a chaffis;
- Roedd 16 o ymatebwyr yn teimlo y byddai gwelliant o ran symudedd cymdeithasol a safon byw yn annog pobl i roi'r gorau i gymryd sylweddau, neu beidio â'u cymryd yn gyfan gwbl;
- Roedd 14 o unigolion yn dadlau dros ymgyrchoedd iechyd cyhoeddus gwell;
- Dywedodd 13 o bobl y dylid gwella'r cyfleusterau sydd ar gael ar gyfer dadwenwyno ac adsefydlu;
- Roedd 12 o ymatebwyr yn teimlo y dylid dad-droseddoli sylweddau a chyflwyno rheoliadau;
- Roedd naw o unigolion o blaid rhagor o gefnogaeth i godi hunan-barch y rhai sy'n dibynnu ar sylweddau / mewn perygl o ddod i ddibynnu ar sylweddau;
- Dywedodd chwech o bobl y dylid sicrhau bod rhagor o wybodaeth ar gael ynghylch beth yw'r sylweddau peryglus presennol;
- Roedd chwe ymatebydd yn teimlo y gellid gwneud mwy o ymchwil "gonest", sy'n amlinellu cynnwys y sylweddau sydd ar gael a pha risg maent yn ei achosi i iechyd mewn gwirionedd;
- Roedd pump o unigolion yn dadlau dros hybu ffyrdd amgen iachach o fyw (er enghraifft, "deiet heb gyffuriau," heb gaffein, siwgr ac ati.)
- Gwnaeth pump o bobl gais am welliant o ran rheoleiddio sylweddau seicoweithredol newydd (neu "cyffuriau penfeddwol cyfreithlon");
- Teimlai pedwar ymatebydd y dylai ymyrraeth ddigwydd yn gynharach o lawer o ran yr unigolion hynny sydd wedi nodi eu hunain eu bod yn dibynnu ar sylweddau;
- Roedd pedwar unigolyn yn dadlau o blaid mwy o blismyn yn y gymuned;
- Roedd tri o bobl o'r farn y gellid gwneud mwy i godi ymwybyddiaeth o'r risgiau sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau, sef dibyniaeth.

## Cwestiwn 11 – Beth yw'ch oedran?

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 566


- 16 neu'n iau: **21.5% (122)**
- 17 – 24: **33.21% (188)**
- 25 – 34: **11.66% (66)**
- 35 – 44: **10.77 (61)**
- 45 – 59: **16.08% (91)**
- 60 – 64: **3.00%(17)**
- 65 oed neu drosodd: **1.59% (9)**
- Byddai'n well gennyf beidio â dweud: **2.12% (12)**



## Cwestiwn 12 – Pa ryw ydych?

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 561


- Gwryw: **39.39% (221)**
- Benyw: **57.93% (325)**
- Byddai'n well gennyf beidio â dweud: **2.67% (15)**



## Ydych chi'n ystyried eich hun yn berson trawsrywiol?

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 535


- Ydw: **0.56% (3)**
- Nac ydw: **93.64% (501)**
- Byddai'n well gennyf beidio â dweud: **5.79% (31)**



### Cwestiwn 13 – Ym mha ardal awdurdod lleol ydych chi'n byw?

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 553

Tudalen y pecyn 79



# Dadansoddiad arolwg Gweithwyr proffesiynol a darparwyr gwasanaeth


## Ystadegau Allweddol

**170** Cyfanswm nifer yr ymatebion a gafwyd i'r arolwg

## Crynodeb Daearyddol o'r Ymatebion

Nifer yr ymatebion i'r arolwg a gafwyd gan y cyhoedd wedi'i dadansoddi yn ôl awdurdod lleol.

Blaenau Gwent: 1  
Pen-y-bont ar Ogwr: 3  
Caerffili: 5  
Caerdydd: 14  
Sir Gaerfyrddin: 10  
Ceredigion: 1  
Conwy: 11  
Sir Ddinbych: 7  
Sir y Fflint: 7  
Gwynedd: 5  
Ynys Môn: 4  
Merthyr Tudful: 1  
Sir Fynwy: 2  
Castell-nedd Port Talbot: 4  
Casnewydd: 10  
Sir Benfro: 9  
Powys: 2  
Rhondda Cynon Taf: 5  
Abertawe: 7  
Torfaen: 3  
Bro Morgannwg: 3  
Wrecsam: 12






## Crynodeb o'r Ymatebion


Cwestiwn un - Gyda pha grŵp/grwpiau cleient rydych yn gweithio? (Er enghraifft, pobl ifanc 18 oed neu'n iau, pobl hŷn, pobl digartref, neu cleientiaid benywaidd yn unig)

Tudalen y pecyn 81




Cwestiwn dau - Beth yw'r prif resymau dros fod eich cleientiaid yn yfed gormod neu'n cymryd cyffuriau? Ticiwch bob un sy'n berthnasol.

Tudalen y pecyn 82




Os ydych yn gweithio gyda mwy nag un grŵp cleient, neu eich bod chi'n teimlo bod rhesymau eraill dros fod eich cleientiaid yn yfed gormod neu'n cymryd cyffuriau, nodwch eich sylwadau yn y bocs isod os gwelwch yn dda.

Tudalen y pecyn 83




**Cwestiwn tri - Ydy defnyddio cyffuriau ac yfed gormod yn fwy tebygol o effeithio ar grwpiau penodol o bobl? Os felly, pa grwpiau allen nhw fod?**

Tudalen y pecyn 84



**Cwestiwn pedwar - Oes cyfnod penodol ym mywydau eich cleientiaid pan fyddan nhw'n fwy tebygol o gymryd cyffuriau neu yfed gormod? Os felly, pa bryd allai hynny fod? (Er enghraifft, oedran, perthynas yn chwalu, diweithdra ac ati.)**




*\*Esboniodd 25 ymatebwyr bod ormod o newidynnau yn hanes eu cleientiaid – rhaid ystyried y ffactorau rhagdueddu a gwaethygu, ac na ellir eu priodoli i un pwynt yn eu bywydau;*

*\*\*Cyfeirwyd chwech unigolyn eto i'r mater o dulliau ymdopi aneffeithiol – mae rhain yn datblygu yn ystod blynyddoedd ffurfiannol eu cleientiaid (trwy trais er enghraifft) a gall amharu are u tebygolrwydd o gymryd cyffuriau neu yfed gormod.*

## Cwestiwn pump - Pa rwystrau sy'n bodoli i'ch cleientiaid pan fyddan nhw'n ceisio cael cymorth a gwasanaethau?

Tudalen y pecyn 86



\*Roedd chwech ymatbwyr yn teimlo bod ffrydiau ariannu'n methu diwallu anghenion gwasanaethau a cleientiaid yn rwystr. Mae'r system ariannu'n anhyblyg a ni all ei addasu – er enghraifft, triniaeth ar gyfer cyffuriau penfeddwol cyfreithlon;


\*\*Esboniodd 11 unigolyn bod angen i'w cleientiaid bod yn rhydd o ddylanwad sylweddau er mwyn cael triniaeth iechyd meddwl. Mae hyn yn rhwystr oherwydd, i ran helaeth o gleientiaid, mae eu defnydd o sylweddau yn rhan o'i afiechyd meddwl;

\*\*\*Roed pump ymatebwyr yn teimlo y gall staff nhw'i hunain bod yn rwystr i'w cleientiaid. Mae llawer of staff gyda diffyg hyfforddiant a'r empathi i ymateb i anghenion y cleientiaid;

\*\*\*\*Esboniodd naw unigolyn bod angen asesiad gan Gwasanaethau Cymdeithasol cyn derbyn eu gwasanaeth. Mae hyn yn gwrthannog pobl rhag defnyddio'r gwasanaeth ac yn parhau eu ofn o'r awdurdodau.


## Cwestiwn chwech - Pa rwystrau sy'n bodoli i wasanaethau pan fydda chi'n ceisio cael cymorth i'ch cleientiaid?

Tudalen y pecyn 87



**Cwestiwn saith - Beth, yn eich barn chi, yw'r rhwystrau sy'n wynebu staff a gwasanaethau rheng flaen wrth weithio gyda'ch grŵp cleient, neu gamddefnydd sylweddau yn gyffredinol?**

Tudalen y pecyn 88




*\*Esboniodd chwech ymatebwyr ni all cynnig gwasanaeth os mae'r cleientiaid yn ymddangos o dan dylanwad alcohol neu sylweddau. Mae hyn yn bwydo mewn yn uniongyrchol i'r mater o amseroedd / rhestrau aros. Ar gyfartaledd, mae cleient yn disgwyl hyd at tri mis am apwyntiad, a pe bae nhw'n mynychu o dan ddylanwad cyffuriau ac/neu alcohol, caiff eu troi ffwrdd a rhoi a'r ddiwedd y rhestr aros.*



**Cwestiwn wyth - Ble, yn eich barn chi, rydych chi'n meddwl dylai'r ymdrechion cael eu targedu er mwyn delio a chamddefnyddio alcohol a sylweddau yng Nghymru?**


Tudalen y pecyn 89



\*Roedd pump ymatebwyr yn teimlo dylai ymdrechion cael eu targedu er mwyn delio a'r fater cyfreithiol o brynu a gwerthu sylweddau seicoweithredol newydd. Mae staff a darparwyr gwasanaethau yn cael trafferth cadw'n wybodus or holl gyffuriau newydd sy'n dod ar y farchnad;

\*\*Dywedodd tri unigolyn y dylai adolygu'r effaith mae presgripsiynau am ddim yn cael ar gamddefnyddio sylweddau yng Nghymru. Mae nifer o'i gleientiaid yn gaeth arol cael triniaeth am salwch cronig.

Cwestiwn naw - Ym mha ardal awdurdod lleol ydych chi'n gweithio? Os nad ydych yn gweithio yng Nghymru, ysgrifennwch eich ardal awdurdod lleol isod os gwelwch yn dda.



National Assembly for Wales

[Health and Social Care Committee](#)

[Factual briefing from Welsh Government officials on the consultation on future care and support arrangements for Independent Living Fund recipients](#)

Additional information from the Welsh Government

During the Committee's meeting on 21 January 2015 Welsh Government officials agreed to provide the Committee with:

- case studies demonstrating how the level of care and support currently provided to recipients of the ILF will differ to that provided via direct payments;
- confirmation of whether responsibility for the ILF has been transferred from the UK Government to the Welsh Government by a transfer of function order; and
- clarification of whether legislative competence has been transferred to the National Assembly for Wales to enable the Welsh Government to bring forward any primary or secondary legislation which may be required following the transfer of responsibility for the ILF to the Welsh Government.

The Committee received a response from Welsh Government officials on 29 January 2015.

- case studies demonstrating how the level of care and support currently provided to recipients of the ILF will differ to that provided via direct payments;

There are no case studies available on the differences between ILF and Direct Payments (DP) to illustrate the potential different levels of care and support in respect of these funding streams. This is because ILF do not have rates that compare directly to DP rates as these vary across local authorities and are based on local needs and resources. There are swings and roundabouts that work both ways in relation to this.

Whilst the ILF has tended to use the direct payment rate as a guide to a reasonable local wage to pay a personal carer this has not been binding, therefore some ILF users may employ support that is paid at rates of pay above that allowed by the local authority. Conversely, the ILF may be paying slightly less than the direct payment rate, in particular if following a transfer review visit there had been a subsequent uplift in the direct payment rate paid by the local authority.

For example, if an ILF user had a previously agreed an hourly rate with their agency or Personal Carer that was higher than the locally applied DP rate and the DP rate was subsequently increased by the Local Authority, the ILF user would continue to pay for their care on their currently agreed rate which then may be lower than the revised DP rate.

- confirmation of whether responsibility for the ILF has been transferred from the UK Government to the Welsh Government by a transfer of function order;

The short answer to this is no. The UK Government has decided that funding previously allocated to the DWP to administer ILF across Britain should, from 1 July this year, be distributed to the devolved administrations to determine how these funds should be used. The ILF is a discretionary Trust which was set up by virtue of a Trust Deed which set out its functions. There is no statutory responsibility for the fund which could be transferred from the UK Government to the Welsh Government.

- and clarification of whether legislative competence has been transferred to the National Assembly for Wales to enable the Welsh Government to bring forward any primary or secondary legislation which may be required following the transfer of responsibility for the ILF to the Welsh Government

Should the National Assembly for Wales wish to legislate in light of acquiring funds that were previously provided to the ILF whether it

has competence or not will depend on exactly what the Assembly wanted to do. That is, what organisation, agency or body it may wish to administer ILF in the future. The National Assembly already has the competence to enable it to administer a scheme which is the same or similar to the ILF. The National Assembly has legislative competence in relation to Health and Health Services (Heading 8 Schedule 7 to the Government of Wales Act 2006 (GOWA) and Social Welfare (Heading 15 Schedule 7 GOWA). Therefore if the purpose of any equivalent ILF fund was to give financial support to disabled people to enable them to live in the community any legislative provision would relate to one or more of the subjects under those headings and therefore be within the Assembly's competence. Questions of competence always have to be considered with the proposed provisions in mind, however, if the purpose of any legislation was to enable or support the distribution of funds to support disabled people then it is considered that it would already be within the Assembly's legislative competence.

# Eitem 6.5

Y Pwyllgor Cyllid  
Finance Committee

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru  
National  
Assembly for  
Wales



David Rees AC  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

29 Ionawr 2015

Annwyl David

## Y Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru)

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyllid ar 21 Ionawr 2015, trafododd y Pwyllgor oblygiadau ariannol y Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru).

Ar y cam hwn, ni fydd y Pwyllgor yn ymgymryd ag unrhyw waith craffu ariannol pellach mewn perthynas â'r Bil. Tra byddwch yn craffu ar egwyddorion cyffredinol y Bil, hoffem ofyn ichi ystyried y goblygiadau ariannol ac os byddwch yn teimlo bod goblygiadau ariannol y dylem fod yn ymwybodol ohonynt y gallai fod yn werth i'r Pwyllgor graffu arnynt ymhellach, byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi gwybod imi.

Er i'r Pwyllgor gytuno i beidio ag ymgymryd ag unrhyw waith craffu pellach, roedd yr Aelodau'n pryderu y byddai'r rhan fwyaf o gostau'r Bil yn deillio o reoliadau ac nid oes llawer o fanylion yn yr asesiad effaith rheoleiddiol ynglŷn â hyn, felly byddwn yn ddiolchgar pe gallech ystyried hyn fel rhan o'ch gwaith craffu ehangach.

Byddaf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Kirsty Williams, sef yr Aelod sy'n gyfrifol.

Yn gywir

**Jocelyn Davies AC**  
Cadeirydd

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon